# Trawsnewid Digidol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Mawrth 2026

# Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 61(3) (b) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.


## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.


## Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ciplun archwiliad | 4 |
| Ffeithiau a ffigyrau allweddol | 7 |
| Ein canfyddiadau | 8 |
| Argymhellion | 28 |
| Atodiadau | 30 |
| 1 Ynglŷn â'n gwaith | 31 |
| 2 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn | 34 |
| 3 Ymateb y Rheolwyr | 36 |

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Fe wnaethom ystyried sut y mae dull trawsnewid digidol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd) o gymorth i wella gwasanaethau. Roedd hyn yn cynnwys y dull o ddatblygu strategaeth, arweinyddiaeth a sgiliau digidol. Fe wnaethom hefyd ystyried sut y mae'r sefydliad yn rheoli risgiau mewn perthynas â seilwaith digidol, seibergadernid a deallusrwydd artiffisial.

## Pam fod hyn yn bwysig

2 Mae technoleg ddigidol yn ffactor galluogi allweddol ar gyfer llawer o'r nodau yn Cymru Iachach. Mae'r cynllun hwnnw'n dweud y bydd technolegau a dulliau digidol newydd yn rhan bwysig o'r drefn system gyfan ar gyfer iechyd a gofal yn y dyfodol.

3 Fodd bynnag, mae cyflawni trawsnewid digidol yn gryn her. Mae'n galw am fuddsoddiad, y seilwaith cywir, ac ymgysylltu â staff a'u hyfforddi. Mae angen i systemau gyfathrebu gyda'i gilydd a rhaid i sefydliadau reoli risgiau bythol gynyddol mewn perthynas â seibergadernid.

4 Nid oes a wnelo trawsnewid digidol â thechnoleg yn unig. Mae a wnelo â diwylliant ac arweinyddiaeth. Mae gan fyrddau cyrff y GIG rôl allweddol o ran cymeradwyo a pherchnogi strategaeth ddigidol y sefydliad. Mae ar fyrddau angen sicrwydd hefyd bod trawsnewid digidol yn cael ei reoli'n ddiogel ac yn effeithiol, a bod buddsoddiad yn sicrhau'r manteision bwriadedig.

# Yr hyn yr ydym wedi’i ganfod

5 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull eglur ac uchelgeisiol lle mae trawsnewid digidol yn y cwestiwn, a ategir gan arweinyddiaeth gref a chynllun strategol sefydledig. Mae goruchwyliaeth y Bwrdd ar drawsnewid digidol yn effeithiol, ond gallai sicrwydd gael ei gryfhau trwy gyfuno gwybodaeth am ddeilliannau ac effaith ymgysylltu ar draws prosiectau digidol. Er bod y Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i fuddsoddi mewn trawsnewid digidol, fel a ddangosir trwy ei bartneriaeth strategol 10 mlynedd gydag arbenigwr allanol, mae cyllid cyfyngedig yn creu risg i gyflawni blaenoriaethau strategol.

6 Mae’r Bwrdd Iechyd wrthi’n cyflawni ystod o brosiectau lleol a chenedlaethol, gyda’i fap trywydd trawsnewid digidol tair blynedd yn amcanu at wella deilliannau ar gyfer cleifion, profiad staff, a llywio cynaliadwyedd ariannol. Mae gan y Bwrdd Iechyd hefyd ddull da o werthuso prosiectau digidol a thracio eu manteision.

7 Mae trefniadau rheoli risg ar gyfer seilwaith digidol a seiberddiogelwch wedi datblygu’n dda, gyda goruchwyliaeth glir. Fodd bynnag, mae trefniadau llywodraethu ar gyfer defnyddio Deallusrwydd Artiffisial ar draws y Bwrdd Iechyd yn dal mewn cam cynnar.

8 Mae’r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd o ran deall a gwella sgiliau digidol trwy hyfforddiant wedi’i dargedu, llwybr sgiliau, a mentrau cynhwysiant digidol. Er gwaethaf y camau cadarnhaol hyn, mae hyder digidol yn amrywio ar draws y gweithlu, ac mae diffyg cynllun gweithlu digidol ar ei ben ei hun yn wendid amlwg wrth i drawsnewid digidol gyflymu.

9 Mae’r sefydliad yn dangos ymrwymiad cryf i gynhwysiant digidol a gweithio mewn partneriaeth, gan gyfrannu’n frwd at raglenni cenedlaethol a rhanbarthol. Mae ymgysylltiad â staff a defnyddwyr gwasanaethau’n gwella trwy arweinwyr gwybodeg glinigol, hyrwyddwyr digidol, a gweithdai dylunio.

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

10 Rydym wedi llunio pum argymhelliad ar gyfer y Bwrdd Iechyd sy'n canolbwyntio ar y canlynol:

- darparu trosolwg symlach ar fentrau digidol ar gyfer y Pwyllgor Digidol, Data ac Arloesi;
- sicrhau bod cofrestrau risgiau'n cynnwys risgiau sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â Deallusrwydd Artiffisial;
- datblygu cynllun gweithlu digidol i roi cymorth i gyflawni'r cynllun digidol strategol;
- casglu gwybodaeth sy'n rhoi darlun gyfunol o ddeilliannau ac effaith gweithgareddau ymgysylltu'r prosiectau digidol; a
- chryfhau adroddiadau ar lefel y Bwrdd ar grwpiau cymheiriaid digidol cenedlaethol.

# Ffeithiau a ffigyrau allweddol

O weithlu'r Bwrdd Iechyd, sef oddeutu 13,000 o aelodau o staff, dim ond 209 sydd wedi cwblhau offeryn hunanwerthuso rhyngweithiol AaGIC (Addysg a Gwella Iechyd Cymru) fel rhan o'r Fframwaith Gallu Digidol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ennill achrediad dan y Siarter Cynhwysiant Digidol yn gydnabyddiaeth am ei Raglen Cynhwysiant Digidol.[1]

Yn ystod 2024-25, fe wnaeth 499 o aelodau o staff fynychu sesiynau cynhwysiant digidol.

Ym mis Medi 2025, canfu archwiliad gan Lywodraeth Cymru yn erbyn y Fframwaith Asesu Seiber fod saith o'r naw cam gweithredu a oedd yn agored o archwiliad y Bwrdd Iechyd yn 2024 wedi cael eu cyflawni a dau wedi cael eu cyflawni'n rhannol.

Yn y 12 mis hyd at fis Mawrth 2026, ni chafodd y Bwrdd Iechyd unrhyw ddigwyddiadau seiber a oedd yn adroddadwy dan Reoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth 2018.

Rhwng 2021-22 a 2024-25, buddsoddodd y Bwrdd Iechyd oddeutu £68 miliwn mewn refeniw digidol ac £13 miliwn mewn cyfalaf.

---

[1] Fframwaith sy'n helpu sefydliadau i leihau allgau digidol yw Siarter Cynhwysiant Digidol Cymru.

# Ein canfyddiadau

## Strategaeth, cynllunio ac arweinyddiaeth

**Mae gan y Bwrdd Iechyd strategaeth ddigidol eglur, arweinyddiaeth ddigidol gref, ac mae wedi buddsoddi mewn cymorth allanol arbenigol i gyflymu ei drawsnewid digidol**

### Strategaeth a chynlluniau digidol

11 Yn ddiweddar mae'r Bwrdd Iechyd wedi diweddaru ei strategaeth hirdymor, Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach, lle mae trawsnewid digidol yn rhan allweddol o wireddu uchelgeisiau yn y dyfodol. Mae nod 'digidol yn gyntaf' y strategaeth wedi'i fwriadu i harneisio arloesi digidol ac ym maes Deallusrwydd Artiffisial, creu llwybrau di-dor rhwng lleoliadau gofal a chartref, a chefnogi staff ag offer effeithiol. Mae'n amcanu at gyrraedd y nod yn hyn o beth trwy gyflawni ei Gynllun Strategol Digidol, Ein Hymateb Digidol 2020-25, y mae'n ei ddiweddaru ar hyn o bryd.

12 Fe lansiwyd y cynllun yn ystod y pandemig. Roedd hyn yn golygu y bu'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd atal neu ailflaenoriaethu rhai prosiectau, er enghraifft cyflwyno Microsoft Office 365 yn gyflym. Ers hynny, mae technoleg wedi datblygu'n sylweddol ac mae'r Bwrdd Iechyd yn diweddaru'r cynllun i wneud yn siŵr ei fod yn dal i fod yn berthnasol ac yn ymateb i anghenion cyfredol. Mae'r weledigaeth a'r blaenoriaethau eglur a nodwyd yn 2020 yn ddigyfnewid gan mwyaf. Mae'r rhain wedi'u bwriadu i helpu cleifion i reoli eu gofal eu hunain, ei gwneud hi'n haws i staff gael mynediad at gofnodion a rennir, defnyddio data i wella gofal yn lleol ac yn rhanbarthol, a gwella seilwaith digidol.

13 Mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl lansio'r Cynllun Strategol Digidol wedi'i ddiweddaru yn haf 2026, ar ôl ymgysylltu â staff a'r cyhoedd i wneud yn siŵr ei fod yn adlewyrchu eu hanghenion. Mae adborth o'r ymgysylltiad diweddar ar y strategaeth hirdymor eisoes wedi goleuo blaenoriaethau allweddol ar gyfer gofal iechyd digidol. Bydd angen i'r cynllun wedi'i ddiweddaru gyd-fynd â strategaethau allweddol eraill y Bwrdd Iechyd hefyd, gan gynnwys y Cynllun Pobl a'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol.

14 Tra bo'r Cynllun Strategol Digidol yn cael ei ddiweddaru, mae gan y Bwrdd Iechyd ffordd eglur ymlaen a ffocws eglur ar gyflawni. Mae Cynllun Blynyddol a Chynllun Gweithredol Digidol y Bwrdd Iechyd 2025-26 yn nodi blaenoriaethau, camau gweithredu a cherrig milltir digidol byrdymor eglur.[2] Mae hefyd wedi creu Map Trywydd Trawsnewid Digidol tair blynedd lefel uchel, sy'n canolbwyntio ar 10 rhaglen allweddol. Adroddir yn rheolaidd ar gynnydd gyda phrosiectau a blaenoriaethau digidol wrth y Pwyllgor Digidol, Data ac Arloesi.

15 Yn 2025, fe ymrwymodd y Bwrdd Iechyd i bartneriaeth strategol 10 mlynedd gyda CGI, sefydliad iechyd digidol, i gyflymu ei drawsnewid digidol. Mae'r bartneriaeth unigryw hon wedi'i bwriadu i ehangu capasiti digidol y Bwrdd Iechyd, cryfhau sgiliau, a rhoi cymorth i drosglwyddo gwybodaeth. Ar hyn o bryd mae CGI yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd ar nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys rheoli rhaglenni i roi systemau cenedlaethol ar waith, adolygiadau o Ddeallusrwydd Artiffisial, a mudo i systemau cwmwl. Er nad yw'r bartneriaeth wedi cael ei gwerthuso'n ffurfiol eto, mae'r adborth cychwynnol wedi bod yn gadarnhaol.

[2] Mae Cynllun Blynyddol 2025-26 yn cynnwys 10 amcan cynllunio, ac mae amcan 9 yn canolbwyntio ar gynlluniau digidol.

16 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen iddo wella ei aeddfedrwydd digidol. Roedd ei gynllun presennol yn seiliedig ar asesiad gan ddefnyddio fframwaith y Gymdeithas Systemau Gwybodaeth a Rheoli Gofal Iechyd (HIMSS), yr oedd ei sgôr yn nodi bod y Bwrdd Iechyd ar Lefel 1. Fe wnaeth yr asesiad hwn helpu'r Bwrdd Iechyd i ddeall graddfa ei heriau digidol a phennu nodau i gyrraedd Lefel 3 HIMSS o fewn dwy flynedd a Lefel 6 o fewn pum mlynedd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cynnal asesiad arall ymhen 18 mis, ar ôl rhoi nifer o raglenni digidol allweddol ar waith.

## Perchnogaeth y Bwrdd ar drawsnewid digidol

17 Mae'r Bwrdd yn dangos perchnogaeth gref ar drawsnewid digidol. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae dealltwriaeth ac ymgysylltiad wedi cynyddu, gyda chymorth diweddariadau rheolaidd ar brosiectau digidol unigol a chynlluniau trawsnewid ehangach trwy'r Bwrdd Digidol, Data ac Arloesi, cyfarfodydd y Bwrdd, a Sesiynau Datblygu'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd o'r farn bod digidol yn hanfodol i gyflawni newid, a atgyfnerthwyd ym mis Tachwedd 2024 pan gymeradwyodd bartneriaeth ddigidol strategol 10 mlynedd i gyflymu cynnydd.

18 Ceir arweinyddiaeth ac arbenigedd digidol eglur ar lefel y Bwrdd. Mae gan y Bwrdd Aelod Annibynnol dros Dechnoleg Gwybodaeth, sy'n cadeirio'r Pwyllgor Digidol, Data ac Arloesi newydd.

## Rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd

19 Mae gan y Bwrdd oruchwyliaeth dda ar ei Gynllun Strategol Digidol, a gryfhawyd trwy sefydlu'r Pwyllgor Digidol, Data ac Arloesi ym mis Ebrill 2025.[3]

---

[3] Cafodd y Pwyllgor Adnoddau Cynaliadwy, a arferai oruchwylio gwaith digidol, ei ddirwyn i ben ym mis Mawrth 2025.

20 Mae'r Pwyllgor Digidol, Data ac Arloesi, dan gadeiryddiaeth yr Aelod Annibynnol dros Dechnoleg Gwybodaeth, yn gweithredu'n effeithiol, gyda thrafod agored a chraffu da. Mae ganddo oruchwyliaeth dda ar gynlluniau, prosiectau a risgiau digidol, gan gael diweddariadau'n rheolaidd ar y Cynllun Strategol Digidol, y bartneriaeth ddigidol strategol, achosion busnes ac amcan digidol Cynllun Blynyddol 2025-26. Er bod yr adroddiadau hyn yn eglur, maent yn aml yn dyblygu gwybodaeth, gyda phob un yn darparu diweddariadau ar yr un prosiectau, megis y Prosiect Presgripsiynu a Rhoi Meddyginiaethau'n Electronig (ePMA), o safbwynt gwahanol a chyda lefelau amrywiol o fanylder. Ceir cyfle, felly, i'r Bwrdd Iechyd adolygu'r adroddiadau y mae'r pwyllgor yn eu cael i leihau gorgyffwrdd a chyflwyno darlun symlach, mwy cyfunol o waith digidol.

21 Ceir trefniadau gweithredol a gweithrediadol eglur ar gyfer goruchwylio gwaith digidol. Mae'r Cyfarwyddwr Digidol yn atebol i'r Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol, sef yr arweinydd gweithredol ar gyfer digidol. Mae'r ddau'n eistedd ar y Pwyllgor Digidol, Data ac Arloesi ac yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd i roi diweddariadau i'r aelodau ar waith digidol. Mae goruchwyliaeth ar ddigidol gan y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol yn helpu i sicrhau cysylltiadau cryf â phenderfyniadau buddsoddi a ffocws ar werth am arian ac adenillion ar fuddsoddiad.

22 Mae gan y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol amcan blynyddol i ganlyn arni â chamau gweithredu sy'n gysylltiedig â digidol, technoleg a Deallusrwydd Artiffisial gydag adroddiadau rheolaidd ar gynnydd a risgiau i'r Pwyllgor Digidol, Data ac Arloesi. Mae nifer o grwpiau gweithrediadol yn rhoi cymorth i gyflawni hefyd, gan gynnwys cyfarfodydd y Grŵp Perfformiad, y Bwrdd Cynghori ar Newid, a chyfarfodydd yr Uwch Dîm Digidol. Mae'r grwpiau hyn yn atebol i Grŵp Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach, sy'n is-grŵp i'r Grŵp Gweithredol.

23 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n frwd i gryfhau arweinyddiaeth ddigidol glinigol. Mae ganddo eisoes Brif Swyddog Gwybodaeth Glinigol sy'n cwrdd yn rheolaidd â'r Cyfarwyddwr Digidol. I ehangu'r arweinyddiaeth hon, mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu recriwtio Prif Swyddogion Gwybodaeth ar gyfer Nyrsio a Phroffesiynau Perthynol i Iechyd. Bydd y rolau hyn yn gwasanaethu fel dolenni cyswllt hollbwysig rhwng timau clinigol a digidol, gan sicrhau safbwynt clinigol cryf mewn prosesau penderfynu. Mae hefyd yn bwriadu sefydlu grŵp o glinigwyr sydd â diddordeb i ymdrin â phynciau megis diogelwch clinigol, ond megis dechrau y mae hyn o hyd.

# Adnabod a rheoli risgiau

## Mae gan y Bwrdd Iechyd oruchwyliaeth gref ar seilwaith digidol a risgiau seiber, ond mae arno angen ffocws gwell ar risgiau sy'n dod i'r amlwg yn sgîl Deallusrwydd Artiffisial

### Risgiau digidol strategol

24 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cryf i reoli risgiau digidol. Mae risg strategol sy'n ymwneud â pheidio â buddsoddi digon o arian mewn seilwaith digidol yn cael ei monitro ar lefel y Bwrdd, tra bo'r Pwyllgor Digidol, Data ac Arloesi'n goruchwylio risgiau digidol corfforaethol a gweithrediadol allweddol. O ran y sefyllfa ym mis Ionawr 2026, mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli dwy brif risg ddigidol gorfforaethol sy'n ymwneud â diffoddiad maith yn dilyn digwyddiad seiber a cholled bosibl gwasanaethau patholeg oherwydd oedi cyn rhoi System Rheoli Gwybodaeth Labordy (LIMS) ar waith. Mae'r pwyllgor hefyd yn adolygu risgiau gweithrediadol arwyddocaol, gan gynnwys cyllid cyfyngedig ar gyfer trawsnewid digidol a phwysau o ran capasiti a allai effeithio ar raglenni cenedlaethol ac adroddiadau statudol.

### Risgiau i'r seilwaith digidol

25 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth dda am ei seilwaith TG a'r hyn y mae angen ei ddisodli. Mae wedi creu rhestr fanwl o asedau digidol sy'n

cofnodi oedran, statws cynnal, cyflwr, a swyddogion cyfrifol ar gyfer pob system. Gan gydnabod bod systemau sy'n heneiddio'n gallu cynyddu risgiau seiber, mae'r rhestr hon yn helpu'r Bwrdd Iechyd i adnabod a disodli systemau sydd wedi mynd yn hen neu nas cynhelir. Mae'r Grŵp Rhaglen Ddigidol a'r Grŵp Monitro Cyfalaf yn darparu sicrwydd ynghylch rheoli'r rhestr asedau digidol.

26 Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod nad yw ei seilwaith digidol yn ddigon cryf na dibynadwy a bod hyn yn creu risg fawr i gyflawni ei Gynllun Digidol Strategol. Nid yw'r seilwaith cyfredol yn rhoi cymorth dibynadwy i staff sy'n gweithio mewn lleoliadau sylfaenol, eilaidd, na chymunedol, ac mae angen uwchraddio nifer o elfennau. Ceir bylchau hefyd yn argaeledd offer ar wardiau ac i staff sy'n gweithio yn y gymuned. Mae'r map trywydd tair blynedd lefel uchel ar gyfer trawsnewid yn canolbwyntio ar roi'r hanfodion yn eu lle gan gynnwys moderneiddio seilwaith digidol, ymdrin â'r bylchau mwyaf dybryd, a chael gwared ar systemau TG cysgodol.

## Seibergadernid

27 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol i reoli'r risgiau i'w seiberddiogelwch. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhedeg Rhaglen Seiberddiogelwch a arweinir gan dîm sydd wedi'i neilltuo i faterion seiber. Darperir goruchwyliaeth gan y Grŵp Sicrwydd Seiberddiogelwch, sy'n adrodd wrth y Pwyllgor Digidol, Data ac Arloesi trwy'r Is-bwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth. Mae risgiau seiber wedi'u diffinio'n glir mewn cofrestrau risgiau ar lefel gwasanaethau a chorfforaethol, gyda rheolaethau a chamau lliniaru yn eu lle. Ers mis Medi 2025, mae'r Bwrdd Iechyd wedi diweddaru'r risg gorfforaethol sy'n ymwneud ag ymosodiadau seiber, gan ei disodli ag un newydd sy'n canolbwyntio ar berygl diffoddiad hir systemau a'r gallu i'w hadfer ar ôl ymosodiad.

28 Mae gan y Bwrdd Iechyd brosesau i wneud yn siŵr bod seiberddiogelwch yn cael ei gynnwys fel ystyriaeth wrth ddatblygu a phrynu gwasanaethau TG newydd, megis yr un a ddefnyddiwyd gan y Grŵp Rhaglen Ddigidol wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo gwasanaethau newydd.

29 Mae’r Bwrdd Iechyd yn cydweithio’n agos gydag arbenigwyr seiberddiogelwch cenedlaethol y GIG, gan gynnwys y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC). Mae’r Tîm Seiber yn rhedeg ymarferion gwe-rwydo’n rheolaidd i hyfforddi staff a chodi ymwybyddiaeth. Fodd bynnag, mae cydymffurfiaeth â hyfforddiant seiberddiogelwch yn 79%, sydd islaw’r targed o 85%. Mae’r tîm hefyd yn rhedeg ymarferion pen bwrdd rheolaidd i brofi sut y byddai’r sefydliad yn ymateb i ddigwyddiadau seiber mawr ac yn bwriadu rhedeg ffug ymosodiad seiber i brofi systemau clinigol, o ystyried y risgiau posibl i ddiogelwch cleifion.

30 Ym mis Medi 2025, fe archwiliwyd y Bwrdd Iechyd gan Uned Seibergadernid Llywodraeth Cymru, gan ddefnyddio’r Fframwaith Asesu Seiber. O’r naw cam gweithredu o’i archwiliad yn 2024, aseswyd fod saith wedi cael eu cyflawni a bod dau wedi cael eu cyflawni’n rhannol. Hefyd, fe arweiniodd adolygiad Archwilio Mewnol o seiberddiogelwch ym mis Ionawr 2026 at sgôr ‘sicrwydd sylweddol’, gyda dim ond un argymhelliad â blaenoriaeth ganolig ynglŷn ag adrodd ar gynnydd yn erbyn y Rhaglen Seiberddiogelwch.

31 Mae digwyddiadau seiber yn cael eu monitro’n weithredol ac adroddir arnynt wrth y Pwyllgor Digidol, Data ac Arloesi preifat. Ym mis Hydref 2025, cafodd y pwyllgor adroddiad a oedd yn amlygu pum digwyddiad seiber, gyda sicrwydd eu bod yn cael eu rheoli’n briodol. Nid oedd yr un o’r digwyddiadau hyn yn adroddadwy dan Reoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth 2018.

## Deallusrwydd artiffisial

32 Mae’r Bwrdd Iechyd yn gweithio ar ddatblygu cynllun mwy eglur ar gyfer sut y bydd yn defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI). Dim ond ychydig bach o sôn am ddeallusrwydd artiffisial sydd yn y Cynllun Strategol Digidol cyfredol, ond bydd y cynllun wedi’i ddiweddaru’n canolbwyntio’n fwy ar sut y gallai Deallusrwydd Artiffisial gefnogi gofal clinigol, megis mewn gwasanaethau canser, strôc, sgrinio, diagnosteg ac mewn prosesau penderfynu. Mae’r Bwrdd Iechyd hefyd wrthi’n archwilio ffyrdd eraill o ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial, gan gynnwys sgwrsfotiaid i helpu dinasyddion i ddod o hyd i wybodaeth ar ei wefan, offer i ddadansoddi data a gwirio ei ansawdd, a Deallusrwydd Artiffisial ategol i arbed amser trwy drawsgrifio nodiadau’n awtomatig.

33 Fodd bynnag, nid yw’r Bwrdd Iechyd wedi asesu risgiau defnyddio Deallusrwydd Artiffisial eto, ac nid oes unrhyw risgiau sy’n gysylltiedig â Deallusrwydd Artiffisial wedi’u cofnodi ar ei gofrestrau risg. Hefyd, ar hyn o bryd nid oes ganddo’r polisïau na’r gweithdrefnau y mae eu hangen i reoli’r risgiau hyn. Golyga hyn nad yw’r sefydliad yn deall eto sut y gallai Deallusrwydd Artiffisial effeithio ar ddiogelwch cleifion nac yn darparu sicrwydd ar gyfer y bwrdd bod ei ddefnydd yn ddiogel ac yn briodol. Fodd bynnag, mae gwaith i ymdrin â hyn wedi dechrau trwy adolygu sut y mae Deallusrwydd Artiffisial eisoes yn cael ei ddefnyddio mewn meysydd megis dadansoddi data, gwasanaethau cleifion, ac offer rhagfynegi. Bydd yr adolygiad hwn yn helpu i wirio pa mor dda y mae’r systemau hyn yn gweithio, adnabod gwelliannau, sicrhau eu bod yn ateb gofynion cyfreithiol a moesegol, cryfhau trefniadau llywodraethu, a chefnogi datblygiad cynllun Deallusrwydd Artiffisial yn y dyfodol.

34 Gan weithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo'n ffurfiol i ddatblygu strategaeth a fframwaith llywodraethu ar y cyd ar gyfer Deallusrwydd Artiffisial erbyn yn gynnar yn 2026. Bydd hyn yn cynnwys goruchwyliaeth foesegol a dilysu clinigol yn unol â disgwyliadau'r Comisiwn Deallusrwydd Artiffisial ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.[4]

## Sgiliau digidol

### Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull cadarnhaol o asesu a datblygu sgiliau digidol, y gallai ei gryfhau trwy ddatblygu cynllun gweithlu digidol

#### Asesu sgiliau digidol

35 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth sylfaenol am sgiliau a gallu digidol y gweithlu, gyda dim ond 209 o staff yn cwblhau offeryn hunanasesu Fframwaith Cymhwysedd Digidol AaGIC. Fodd bynnag, roedd y canlyniadau'n dal yn ddefnyddiol, gan amlygu bod bron i hanner y rhai a gymerodd ran (45%) wedi dweud eu bod yn dal i ddysgu neu nad ydynt yn hyderus yn eu sgiliau digidol.

[4] Corff a arweinir gan Lywodraeth Cymru yw'r Comisiwn Deallusrwydd Artiffisial ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sy'n darparu arweiniad, cyfeiriad strategol, a safonau ar lefel genedlaethol ar gyfer mabwysiadu Deallusrwydd Artiffisial yn ddiogel ac yn gyfrifol ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

36 Mae'r ddealltwriaeth hon wedi helpu'r Bwrdd Iechyd i ddylunio hyfforddiant sgiliau digidol sy'n cyd-fynd â gwahanol anghenion aelodau o staff mewn amryw rolau. Mae wedi creu Llwybr Datblygu Sgiliau a Hyder Digidol i roi anogaeth ar gyfer dysgu parhaus ac i'w wneud yn haws i staff a rheolwyr ddod o hyd i adnoddau hyfforddi defnyddiol. Nod y llwybr, y mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau ei gyflwyno, yw datblygu sgiliau sylfaenol ac uwch, gydag archwiliad sgiliau mewnol a Fframwaith Cymhwysedd Digidol AaGIC fel offer i ategu dysgu a hunanwerthuso. Hefyd, mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cynnwys trafodaethau am sgiliau digidol yn Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Perfformiad (PADR) staff.

37 Wrth roi cynhyrchion digidol newydd ar waith, mae'r Bwrdd Iechyd yn mabwysiadu dull cadarnhaol sy'n 'gadael neb ar ôl' trwy weithio gyda staff i feithrin eu sgiliau a'u hyder digidol cyn y cyflwynir systemau newydd. Er enghraifft, mae sgiliau digidol a chynhwysiant digidol yn ystyriaethau allweddol yn yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y Ganolfan Gwasanaethau Cleifion, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Digidol, Data ac Arloesi ym mis Ionawr 2026.

## Datblygu sgiliau digidol

38 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd gynllun gweithlu digidol ar ei ben ei hun. Mae diweddaru ei gynllun strategol digidol yn cynnig cyfle i adnabod bylchau mewn sgiliau a chapasiti digidol ac amlinellu'r adnoddau y mae eu hangen i ymdrin â hwy yn y tymor byr, canolig a hwy.

39 Er gwaethaf hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod yr angen i uwchsgilio ei weithlu i gefnogi trawsnewid digidol, gyda'i Raglen Cynhwysiant Digidol (gweler **paragraff 42**) yn cwmpasu staff a'r gymuned ehangach. Mae ffrwd waith wedi'i neilltuo yn y rhaglen hon yn amcanu at gryfhau sgiliau a hyder digidol trwy wella mynediad at adnoddau cynhwysiant digidol a chymell staff i ymgysylltu â newid digidol. I ategu hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio ac yn datblygu ystod o offer, gan gynnwys hyrwyddwyr cynhwysiant digidol, hyfforddiant ar-lein, rhestrau gwirio rheolwyr a thimau, sioeau teithiol, a chymorth wedi'i deilwra gan y Tîm Cynhwysiant Digidol.

40 Yn ystod 2024-25, fe wnaeth 499 o aelodau o staff ymgysylltu â gweithgareddau cynhwysiant digidol. Er bod cyfranogiad yn isel o'i gymharu â maint y gweithlu, mae'r rhai a fu'n rhan o'r gweithgareddau'n dweud bod eu hyder a'u sgiliau wedi gwella. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r heriau allweddol, megis staff yn gwrthwynebu newid digidol, dim llawer o amser ar gael ar gyfer hyfforddiant, seilwaith digidol anghyson a lefelau amrywiol o ymgysylltu gan reolwyr â'r offeryn hunanasesu.

41 Mae'r Gyfarwyddiaeth Digidol yn cynnwys 227 o staff Cyfwerth ag Amser Cyflawn (CagAC) ar draws amrywiaeth o rolau. Dywedodd y Bwrdd Iechyd fod recriwtio staff digidol yn gryn her, ond nad yw eu cadw yn broblem. Mae ei bartneriaeth gyda CGI wedi cynyddu capasiti digidol a helpu'r tîm i ganlyn arni â phrosiectau trawsnewid y bu oedi gyda hwy oherwydd pwysau gweithrediadol. Mae CGI hefyd yn rhoi cymorth i drosglwyddo gwybodaeth ac uwchsgilio, sy'n anos i'w gyflawni trwy gontractau byrdymor. Fel sefydliad byd-eang, mae CGI yn dod â phrofiad a safbwyntiau ehangach i'r Bwrdd Iechyd.

# Cydweithio a chynnwys pobl

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos ymrwymiad cryf i gynhwysiant digidol ac ymgysylltu â phartneriaethau, tra bo'i ddull o gynnwys defnyddwyr gwasanaethau'n esblygu

### Lleihau allgau digidol

42 Mae gan y Bwrdd Iechyd ymrwymiad cryf i gynhwysiant digidol. Fe sefydlodd y Gwasanaeth Cymorth Cynhwysiant Digidol ym mis Mai 2023, sy'n cynnwys Rheolwr Cynhwysiant Digidol a dau Ymgynghorydd Cynhwysiant Digidol. Mae'r tîm yma'n rhedeg Rhaglen Cynhwysiant Digidol eglur sy'n cefnogi staff a'r gymuned ehangach. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar wyth prif faes sy'n canolbwyntio ar y canlynol:

- gwella mynediad a sgiliau digidol;
- dylunio gwasanaethau ar y cyd;
- cynyddu llythrennedd iechyd digidol;
- datblygu hybiau iechyd digidol;
- cryfhau ymgysylltiad â grwpiau nas gwasanaethir ddigon;
- gwella gallu digidol y gweithlu, a
- gwreiddio cynhwysiant digidol ar draws strategaethau iechyd a llesiant.

43 Gan ddangos ei ymrwymiad, fe enillodd y Bwrdd Iechyd statws Siarter Cynhwysiant Digidol ym mis Medi 2022. Hefyd, mae'r Cyfarwyddwr Digidol yn eistedd ar Grŵp Llywio Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru, ac mae'r Aelod Annibynnol dros Dechnoleg Gwybodaeth yn cadeirio'r Grŵp Llywio Cynhwysiant Digidol Rhanbarthol.[5,6] Mae'r rolau hyn yn creu cyfleoedd gwerthfawr i rannu gwybodaeth a chydweithio.

---

[5] Grŵp o sefydliadau sy'n cydweithio i hybu cynhwysiant digidol ledled Cymru yw Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru (DIAW).

[6] Mae'r Grŵp Llywio Cynhwysiant Digidol Rhanbarthol yn dod â phartneriaid yng Ngorllewin Cymru ynghyd i wella cynhwysiant digidol.

44 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod ei waith ar gynhwysiant digidol ymhellach ar y blaen ar gyfer staff nag ar gyfer y gymuned ac mae **paragraff 39** yn amlinellu'r amrywiaeth o gymorth i ddatblygu sgiliau'r gweithlu. Hefyd, mae'r rhaglen yn cynnwys cynllun benthyca gliniaduron i gynorthwyo staff gyda hyfforddiant, yn ogystal â menter 'banc data' sy'n helpu staff i brynu data symudol. Fodd bynnag, mae'n gweithio gyda phartneriaid i wella cynhwysiant digidol cymunedol. Mae hyn yn cynnwys:

- gweithio gyda Hyb Byw'n Annibynnol Cyngor Sir Ceredigion i gynyddu hyder digidol defnyddwyr gwasanaethau;
- sefydlu Grŵp Cynghrair Cynhwysiant Digidol i gydlynu cyfleoedd lleol;
- cynghori Cyngor Sir Penfro ar gynnwys mynediad digidol yn ei Ganolfan Byw'n Annibynnol newydd; ac
- adnabod a chyfeirio cleifion a allai gael budd o gymorth digidol cymunedol.

45 Mae'r Pwyllgor Digidol, Data ac Arloesi'n cael diweddariadau rheolaidd ar weithgareddau cynhwysiant digidol ar draws wyth maes y rhaglen. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau hyn yn cynnwys cerrig milltir na data ar gyfranogiad, sy'n ei gwneud hi'n anodd asesu cynnydd neu effaith. Er bod yr adroddiad gwireddu manteision blynyddol yn cynnwys rhai metrigau cynhwysiant digidol, mae'r rhain yn canolbwyntio ar fentrau staff yn unig. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y bylchau hyn, yn enwedig mesur sgiliau meddal a deilliannau tymor hwy.

## Cynnwys staff a defnyddwyr gwasanaethau

46 Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i gynnwys staff, cleifion a defnyddwyr gwasanaethau wrth siapio ei raglenni digidol. Mae ymgysylltu bellach yn rhan arferol o brosiectau mawr a bydd yn rhan bwysig o ddiweddaru'r Cynllun Digidol Strategol.

47 Rhoddir cymorth i gynnwys staff trwy fecanweithiau megis arweinwyr gwybodeg glinigol, hyrwyddwyr digidol, a gweithdai dylunio amlddisgyblaethol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod datrysiadau digidol yn adlewyrchu anghenion rheng flaen ac arfer gweithrediadol. I gryfhau mewnbwn clinigol, mae'r Bwrdd Iechyd yn creu model Gwybodeg Glinigol sy'n dwyn ynghyd rolau fel y Prif Swyddog Gwybodaeth Glinigol, Arweinwyr Gwybodeg Nyrsio, a Fferyllwyr Digidol mewn un strwythur cydgysylltiedig, gan helpu i sicrhau bod yr holl broffesiynau'n cael eu cynrychioli mewn prosesau penderfynu digidol.

48 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn gwella sut y mae'n ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd trwy brofi gyda defnyddwyr, arolygon adborth, ac allgymorth wedi'i dargedu i bobl sy'n wynebu risg o allgau digidol. Mae hefyd yn gynyddol yn rhoi mwy o ffocws ar gynhwysiant digidol a dylunio ar y cyd, yn enwedig ar gyfer llwybrau gofal rhithwir a thechnolegau a ddefnyddir gan gleifion.

49 Er bod y Bwrdd yn cael sicrwydd ynghylch cynnwys rhanddeiliaid mewn trawsnewid digidol fesul prosiect unigol, nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei dwyn ynghyd i ddangos yr effaith ar y cyfan, ac mae mesurau deilliannau'n aneglur. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd pwyso a mesur cynnydd. Byddai dwyn yr wybodaeth hon ynghyd yn helpu'r Bwrdd Iechyd i adnabod bylchau mewn gweithgarwch ymgysylltu a chryfhau'r modd y mae'r holl grwpiau'n cael eu cynnwys, gan gynnwys y rhai nas clywir yn aml.

## Gweithio mewn partneriaeth

50 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n dda gyda'i bartneriaid cenedlaethol a rhanbarthol, gan gynnwys IGDC, Llywodraeth Cymru, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Mae ganddo berthynas weithio gref ag IGDC, a ategir gan gyfarfodydd rheolaidd ar lefel arweinwyr sy'n helpu gyda chynllunio a datrys problemau ar y cyd. Fe wnaeth IGDC ymwneud yn uniongyrchol â'r ymarfer i gaffael CGI hefyd, ac fe wnaeth Llywodraeth Cymru gymeradwyo'r buddsoddiad.

51 Mae arweinwyr digidol yn y Bwrdd Iechyd yn ymwneud yn frwd â grwpiau a rhwydweithiau cymheiriaid digidol cenedlaethol. Er enghraifft, mae'r Cyfarwyddwr Digidol yn cadeirio Grŵp Cymheiriaid y Cyfarwyddwyr Digidol ac mae'n aelod o'r Comisiwn Deallusrwydd Artiffisial ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol yn cadeirio'r Grŵp Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd, ac mae'r Aelod Annibynnol dros TG yn cadeirio Grŵp Cymheiriaid yr Aelodau Annibynnol dros Ddigidol. Mae'r ymwneud cenedlaethol hwn yn helpu'r Bwrdd Iechyd i ddylanwadu ar bolisi digidol ehangach a pharhau i fod wedi'i alinio â blaenoriaethau cenedlaethol.

52 Mae'r Bwrdd yn cael adroddiadau rheolaidd ar y bartneriaeth ddigidol strategol a gwaith y cydbwyllgor rhanbarthol. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r wybodaeth y mae'n ei chael am bartneriaethau digidol pwysig a grwpiau digidol cenedlaethol eraill. O ganlyniad, mae gan y Bwrdd lai o olwg ar yr hyn mae'r partneriaethau hyn yn ei gyflawni, sut y maent yn cefnogi cynlluniau digidol lleol, a pha un a oes angen rhoi sylw i unrhyw risgiau neu fylchau.

# Defnyddio datblygiadau digidol i roi cymorth i drawsnewid gwasanaethau

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i fabwysiadu systemau digidol cenedlaethol ac mae ganddo ddull cryf o wireddu manteision. Er ei fod yn ymrwymedig i fuddsoddi mewn digidol, mae cyllid cyfyngedig yn achosi risg i gyflawni

### Buddsoddi mewn trawsnewid digidol

53 Mae sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd yn gryn her, ac yntau'n rhagweld diffyg ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2025-26. Er gwaethaf hyn, mae'r Bwrdd wedi dangos ymrwymiad cryf i fuddsoddi mewn trawsnewid digidol, yn anad dim trwy ymrwymo i bartneriaeth strategol 10 mlynedd gyda CGI sy'n werth £75 miliwn.[7] Fodd bynnag, nid oes cyllid wedi'i neilltuo ar gyfer y contract, felly mae pob prosiect yn dal i fod angen achos busnes cymeradwy a rhaid iddynt ddibynnu ar gyllid o ffynonellau megis Llywodraeth Cymru, cyllid diwedd blwyddyn, neu gyfalaf yn ôl disgresiwn. Mae'r ansicrwydd hwn yn creu risg i gyflawni'r Cynllun Digidol Strategol. Fodd bynnag, i roi hyblygrwydd i'r naill barti a'r llall, cytunwyd ar gontract CGI ar sail 'dim ymrwymiad'.

[7] Mae gwerth y contract o £75 miliwn dros 10 mlynedd yn seiliedig ar gostau disgwyliedig prosiectau digidol yn y dyfodol a gwariant nodweddiadol y Bwrdd Iechyd ar drawsnewid digidol.

54 O ystyried y pwysau ariannol hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn realistig ac yn defnyddio dull MoSCoW i flaenoriaethu prosiectau digidol.[8] Mae'r dull hwn yn helpu i adnabod yr hyn y mae'n rhaid ei gyllido yn awr a'r hyn y gellir oedi cyn ei gyllido, gan wneud yn siŵr bod adnoddau'n cael eu canolbwyntio ar brosiectau hollbwysig a'r rhai sy'n dwyn y gwerth mwyaf. Mae'r dull strwythuredig hwn o gymorth i wneud penderfyniadau mewn modd eglur, yn lleihau gwastraff ac yn helpu i gadw prosiectau'n rhai y gellir eu cyflawni. Y prosiectau a flaenoriaethir sy'n sail i'r Cynllun Gweithredol Digidol blynyddol.

55 Dengys **Arddangosyn 1** fod gwariant cyfalaf a refeniw ar wasanaethau digidol wedi amrywio dros y blynyddoedd diwethaf, gyda gwariant blynyddol cyfunol cyfartalog o oddeutu £20 miliwn. Er bod **Arddangosyn 2** yn dangos bod y Bwrdd Iechyd yn bwriadu cynyddu ei fuddsoddiad digidol refeniw o 2025-26 ymlaen, ceir risg efallai na fydd hyn yn digwydd os yw heriau ariannol ehangach yn parhau. Bydd hyn yn debygol o effeithio ar gyflymder trawsnewid digidol, a bydd angen i'r Bwrdd Iechyd wneud yn siŵr bod ganddo gynlluniau wrth gefn.

### Arddangosyn 1: Buddsoddiad cyfalaf a refeniw blynyddol mewn digidol (rhwng 2021–22 a 2024–25)

| Blwyddyn Ariannol | Cyfalaf £m | Refeniw £m |
|---|---|---|
| 2021-22 | 4.8 | 19.5 |
| 2022-23 | 1.2 | 16.0 |
| 2023-24 | 2.8 | 18.9 |
| 2024-25 | 3.7 | 14.0 |

8 Mae'r dull MoSCoW yn offeryn blaenoriaethu sy'n grwpio gofynion yn bedwar categori: Rhaid eu cael, Dylid eu cael, Gellid eu cael, Ni fyddir yn eu cael (Must have, Should have, Could have, and Won't have).

**Arddangosyn 2: Lefelau arfaethedig o fuddsoddiad cyfalaf a refeniw mewn digidol (rhwng 2025-26 a 2027-28)**

| Blwyddyn Ariannol | Cyfalaf [9] £m | Refeniw £m |
|---|---|---|
| 2025-26 | 1.0 | 24.5 |
| 2026-27 | 1.0 | 31.4 [10] |
| 2027-28 | 1.0 | 34.1 |
| 2028-29 | 1.0 | 37.0 |

Ffynhonnell: Data a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd

## Prosiectau digidol lleol a rhanbarthol

56 Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n canlyn arni ag ystod o brosiectau lleol. Mae ei fap trywydd trawsnewid digidol tair blynedd yn nodi 10 rhaglen allweddol sydd wedi'u bwriadu i wella deilliannau ar gyfer cleifion, profiad staff, a llywio cynaliadwyedd ariannol. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnwys datrysiadau cenedlaethol a lleol megis disodli'r System Rheoli Gwybodaeth Labordy, systemau arsylwi electronig, a datblygu canolfan gwasanaethau cleifion ac offeryn rheoli perthnasoedd â chleifion.

57 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio ar ddatrysiadau digidol rhanbarthol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe hefyd. Mae Cydbwyllgor rhanbarthol wedi bod yn ei le ers mis Ionawr 2025, ac mae ganddo bum amcan rhanbarthol a rennir, gan gynnwys gwella cydweithio ac effeithlonrwydd digidol. Mae'r ddau sefydliad wedi ymrwymo i gydweithio ar fentrau digidol ac wedi sefydlu gweithgorau ar y cyd ar gyfer data a chudd-wybodaeth, seilwaith, cynhwysiant digidol, a systemau clinigol, ochr yn ochr â fforwm digidol rhanbarthol. Mae'r ddau Fwrdd Iechyd hefyd yn bwriadu datblygu map trywydd digidol ar y cyd ac, fel a nodwyd yn gynharach, strategaeth a fframwaith llywodraethu ar y cyd ar gyfer Deallusrwydd Artiffisial erbyn yn gynnar yn 2026.

[9] Mae hyn yn amodol ar gadarnhad.

[10] Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys Cofnodion Corfforaethol ac Iechyd, a fydd yn rhan o gyfrifoldeb y Gyfarwyddiaeth Digidol.

58 Hefyd, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda phrifysgolion lleol, gan gynnwys Prifysgolion Aberystwyth ac Abertawe, trwy rolau ar y cyd a doethuriaethau a noddir. Mae'r partneriaethau hyn yn helpu gyda phrosiectau data sydd o gymorth gyda chynllunio a llunio rhagolygon.

## Mabwysiadu systemau digidol cenedlaethol

59 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflwyno systemau digidol cenedlaethol, megis y cofnod cleifion electronig offthalmoleg (OpenEyes) a chofnodion mamolaeth digidol (BadgerNet), i wella mynediad, ansawdd ac effeithlonrwydd.

60 Er ei fod yn ymrwymedig i ddatrysiadau Unwaith i Gymru, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn defnyddio dull pragmatig, gan gyflymu datblygiadau digidol lleol lle y bo angen. Mae wedi cyfleu i IGDC a Llywodraeth Cymru y bydd yn bwrw ymlaen yn gyflym pan fo'n ofynnol, gan fwriadu mudo i ddatrysiadau cenedlaethol unwaith y maent ar gael. Er enghraifft, mae'r Bwrdd Iechyd yn archwilio datblygiad Canolfan Gwasanaethau Cleifion ond mae'n glir iddo bod rhaid iddi integreiddio â systemau cenedlaethol presennol megis Ap GIG Cymru a Patient Knows Best.

61 Fodd bynnag, nid yw datrysiadau lleol wastad yn ddichonadwy, ac mae adroddiadau i'r Pwyllgor Digidol, Data ac Arloesi'n amlygu oedi sylweddol gyda rhai prosiectau cenedlaethol allweddol megis LIMS, OpenEyes, a BadgerNet. Er bod yr oedi yn llawer o'r achosion hyn y tu hwnt i reolaeth y Bwrdd Iechyd, gallent effeithio'n ddifrifol ar ddarparu gwasanaethau a rhwystro cynnydd tuag at drawsnewid digidol. Fe nododd y Bwrdd Iechyd, er bod perthnasoedd ag IGDC a Llywodraeth Cymru'n gadarnhaol, fod rôl Llywodraeth Cymru i'w gweld fel pe bai wedi'i diffinio'n llai eglur na rôl IGDC.

## Gwerthuso datrysiadau digidol

62 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull cryf o wireddu manteision. Ym mis Medi 2024, rhoddodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol sgôr sicrwydd sylweddol i'r Bwrdd Iechyd am ei waith Gwireddu Manteision Digidol. Canfu'r adolygiad fod y Bwrdd Iechyd yn defnyddio fframwaith clir i dracio deilliannau prosiectau digidol, gan wneud yn siŵr eu bod yn ategu amcanion strategol ac yn darparu gwerth. Mae achosion busnes yn nodi'n glir beth yw'r manteision disgwyliedig, ac mae prosesau sefydledig yn eu lle i fonitro cynnydd, canfod unrhyw danberfformiad, a chymryd camau cywirol.

63 Mae'r Bwrdd yn cael digon o sicrwydd ynghylch sut y mae datrysiadau digidol yn cael eu gwerthuso. Ym mis Hydref 2025, cafodd y Pwyllgor Digidol, Data ac Arloesi Adroddiad Gwireddu Manteision Arloesi a Thrawsnewid Digidol 2024-25. Mae'r adroddiad hwn yn egluro'r broses fanteision ac yn amlygu manteision ariannol a manteision eraill allweddol o'r flwyddyn ddiwethaf. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Prosiect Argraffu a Phostio Hybrid – Fe newidiwyd 64% o lythyrau apwyntiadau i rai digidol, cyflawnwyd gostyngiad o 20% mewn post dosbarth cyntaf gan arbed £91,567, ac fe ryddhawyd 2.5 awr y dydd yn y Ganolfan Gyswllt ar gyfer tasgau eraill.
- Cofnodion Iechyd Digidol – fe wnaeth 532 o ddefnyddwyr edrych ar dros 42,000 o gofnodion a bron i 49,000 o ddogfennau. Fe wnaeth hyn wybodaeth yn haws i'w chyrchu ac fe helpodd i arbed amser.
- Ceisiadau am Brofion Radioleg – fe wnaed 25,286 o geisiadau electronig (10% o gyfanswm y ceisiadau), gan arbed oddeutu 290 o oriau o amser trawsgrifio. Mae bellach yn cael ei brofi mewn gofal sylfaenol cyn ei gyflwyno'n ehangach.

64 Er bod yr adroddiad yn nodi llwyddiannau'n glir, mae hefyd yn amlygu'r heriau i wireddu manteision bwriadedig a'r camau gweithredu sydd yn yr arfaeth am y 12 mis nesaf. Mae'r Bwrdd Iechyd yn deall bod newid yn gallu dwyn effeithiau cadarnhaol a negyddol ac mae mesur y rhain yn rhan o'i broses werthuso.

# Argymhellion

Mae'r tabl canlynol yn manylu ar yr argymhellion a gododd o'n gwaith.

| | |
|---|---|
| **A1** | Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r adroddiadau digidol y mae'r Pwyllgor Digidol, Data ac Arloesi'n eu cael i leihau dyblygu a darparu trosolwg symlach o fentrau digidol. (**Paragraff 20**) |
| **A2** | Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu ei gofrestrau risgiau corfforaethol a gweithrediadol i sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â Deallusrwydd Artiffisial yn cael eu hadnabod, eu cofnodi, a'u rheoli'n briodol. (**Paragraff 33**) |
| **A3** | Dylai'r Bwrdd Iechyd gynhyrchu Cynllun Gweithlu Digidol i ategu ei Gynllun Digidol Strategol wedi'i ddiweddaru. Bydd hyn yn ei alluogi i ddeall bylchau mewn sgiliau digidol a dyrannu'r adnoddau y mae eu hangen i ddatblygu'r gweithlu. (**Paragraff 38**) |
| **A4** | Dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno proses i grynhoi a thracio deilliannau ac effaith gweithgareddau ymgysylltu ar draws prosiectau digidol, i wella sicrwydd. (**Paragraff 49**) |

**A5** Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau adroddiadau ar lefel y Bwrdd ar grwpiau digidol a phartneriaethau digidol cenedlaethol, i roi trosolwg well i'r Bwrdd ar ddatblygiadau cenedlaethol a sut y maent yn effeithio ar gynlluniau digidol lleol. (**Paragraff 52**)

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Nod yr archwiliad hwn yw canfod a yw'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio technoleg ddigidol i roi cymorth i foderneiddio gwasanaethau ac ategu eu heffeithlonrwydd. Roedd hyn yn cynnwys y dull o ddatblygu strategaeth, arweinyddiaeth a sgiliau ar gyfer trawsnewid digidol, a sut y mae risgiau o ran y seilwaith digidol, seibergadernid a deallusrwydd artiffisial yn cael eu rheoli.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Fe ymdriniodd ein harchwiliad â'r cwestiynau canlynol:

- A oes gan y Bwrdd Iechyd ddull trawsnewid digidol a arweinir yn dda ac y darperir adnoddau priodol ar ei gyfer?
- A yw'r Bwrdd Iechyd yn datblygu sgiliau, capasiti, a gallu digidol ei weithlu?
- A oes gan y Bwrdd Iechyd gynllun eglur ar gyfer rheoli ei drefniadau seibergadernid a'i seilwaith digidol a sut y bydd angen iddynt newid i ategu ei uchelgeisiau trawsnewid digidol?
- A yw'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu'n effeithiol â staff, partneriaid, cleifion / defnyddwyr gwasanaethau i wireddu ei uchelgeisiau trawsnewid digidol a lleihau i'r eithaf risgiau o allgau digidol?
- A yw'r Bwrdd Iechyd wrthi'n frwd yn defnyddio technoleg ddigidol a datrysiadau data newydd i wella hygyrchedd, ansawdd, effeithlonrwydd a chynhyrchiant ei wasanaethau?

## Meini Prawf

Cafodd ein cwestiynau archwilio eu siapio gan:

- Fewnbwn cyfeirio allanol gan Lywodraeth Cymru, Cyfarwyddwyr Digidol y GIG Cymru Gyfan, ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru.
- Strategaethau a chynlluniau perthnasol gan Lywodraeth Cymru.
- Adroddiadau adolygu perthnasol ar Drawsnewid Digidol yn y GIG a gwblhawyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a Phwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Tŷ'r Cyffredin.
- Papur polisi Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y GIG yn Lloegr: A plan for digital health and social care.
- Fframwaith Cyfarwyddiaeth Drawsnewid y GIG yn Lloegr: What good looks like.

# Dulliau

Fe ofynnom ni i Fwrdd Iechyd Hywel Dda:

- gwblhau hunanasesiad i'n helpu i ddeall sut y mae'r sefydliad yn cyflawni trawsnewid digidol; a
- rhoi ffeithiau a ffigyrau i ni am ei wariant ar dechnoleg ddigidol, sgiliau digidol ei staff, ei seibergadernid, a sut y mae'n cynnwys pobl mewn trawsnewid digidol.

Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys:

- Papurau a chofnodion y Bwrdd a phwyllgorau.
- Dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Digidol, Data ac Arloesi.
- Strategaethau a chynlluniau allweddol, gan gynnwys y Cynllun Strategol Digidol a'r Cynllun Blynyddol.
- Dogfennau rheoli risg allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.
- Polisïau a gweithdrefnau perthnasol.
- Adroddiadau a baratowyd gan gyrff allanol perthnasol eraill.

Fe wnaethom gyfweld â'r rhanddeiliaid allweddol canlynol:

- Prif Weithredwr
- Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol
- Cyfarwyddwr Digidol
- Aelod Annibynnol – Technoleg Gwybodaeth

Fe wnaethom arsylwi ar gyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y pwyllgorau canlynol:

- Pwyllgor Digidol, Data ac Arloesi

# 2 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Cofrestr Risgiau Corfforaethol** | Mae Cofrestr Risgiau Corfforaethol yn nodi risgiau arwyddocaol y sefydliad (naill ai'r rhai â sgoriau uchel neu ag effaith ar draws y sefydliad cyfan) a'r camau gweithredu sydd yn eu lle i'w rheoli. |
| **Cofrestr Risgiau Strategol** | Mae'r Gofrestr Risgiau Strategol yn nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig ag amcanion strategol y sefydliad, a'r rheolaethau a'r sicrwydd sydd yn eu lle i reoli'r risgiau hynny. |
| **Fframwaith Gallu Digidol AaGIC** | Model cenedlaethol sy'n amlinellu'r sgiliau, ymddygiadau a hyder digidol y mae ar staff iechyd a gofal eu hangen, a'r rheiny wedi'u trefnu'n chwe maes gallu gydag offeryn hunanasesu ar gyfer datblygu. |
| **Mamolaeth BadgerNet** | System ddigidol ar gyfer cofnodi gofal mamolaeth. |
| **OpenEyes** | System cofnodion cleifion electronig (EPR) sydd wedi'i bwriadu'n benodol ar gyfer gwasanaethau offthalmoleg. |
| **Presgripsiynu a Rhoi Meddyginiaethau'n Electronig (ePMA)** | System yn ei ysbytai, sydd wedi'i bwriadu i wella diogelwch cleifion trwy ddogfennu gwell, llifoedd gwaith wedi'u symleiddio, a mynediad mwy effeithlon at gofnodion meddyginiaeth fel rhan o Raglen Meddyginiaethau Digidol GIG Cymru. |

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Siarter Cynhwysiant Digidol** | Set genedlaethol o ymrwymiadau y mae sefydliadau'n eu harddel er mwyn cefnogi a hybu cynhwysiant ddigidol ledled Cymru mewn modd gweithredol yw Siarter Cynhwysiant Digidol Cymru. |
| **TG Gysgodol** | Mae TG Gysgodol yn cyfeirio at unrhyw feddalwedd, caledwedd, neu wasanaeth technoleg a ddefnyddir mewn sefydliad heb yn wybod i'r adran TG neu heb ei chymeradwyaeth neu ei goruchwyliaeth. |
| **Unwaith i Gymru** | Dull cenedlaethol yn GIG Cymru lle mae system, proses neu safon ddigidol yn cael ei dylunio, ei chaffael a'i rhoi ar waith unwaith ar lefel genedlaethol, yn hytrach na bod pob Bwrdd Iechyd yn creu ei fersiwn ei hun. |

# 3 Ymateb y Rheolwyr

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **A1** | Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r adroddiadau digidol y mae'r Pwyllgor Digidol, Data ac Arloesi'n eu cael i leihau dyblygu a darparu trosolwg symlach o fentrau digidol. (**Paragraff 20**) | Mae'r Bwrdd Iechyd yn cytuno â'r argymhelliad hwn. Bydd adolygiad o'r adroddiadau digidol a gyflwynir i'r Pwyllgor Digidol, Data ac Arloesi'n cael ei gynnal i leihau dyblygu a gwella eglurder. Bydd hyn yn cynnwys rhesymoli adroddiadau sy'n gorgyffwrdd, alinio cynnwys â gofynion sicrwydd craidd y Pwyllgor, a chyflwyno dull adrodd mwy strwythuredig, cyfunol. Y nod yw darparu trosolwg lefel uchel, wedi'i symleiddio ar fentrau digidol, cynnydd o ran cyflawni, gwireddu manteision a risgiau allweddol, gan hefyd gadw'r gallu i gynnal adolygiadau dyfnach lle y bo'n ofynnol. Bydd hyn yn rhoi golwg gliriach i'r Pwyllgor ac yn ddefnydd mwy effeithiol o amser ar yr agenda. | 30 Medi 2026 | Cyfarwyddwr Digidol |
| **A2** | Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu ei gofrestrau risgiau corfforaethol a gweithrediadol i sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â Deallusrwydd Artiffisial yn cael eu hadnabod, eu | Mae'r Bwrdd Iechyd yn cytuno â'r argymhelliad hwn. Bydd cofrestrau risgiau corfforaethol a gweithrediadol yn cael eu hadolygu i sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â Deallusrwydd Artiffisial yn cael eu hadnabod yn benodol, yn cael eu cofnodi'n briodol, ac yn cael eu rheoli yn unol â Fframwaith Rheoli Risg y Bwrdd Iechyd. Bydd hyn yn | 31 Rhagfyr 2026 | Cyfarwyddwr Digidol |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | cofnodi, a'u rheoli'n briodol. (**Paragraff 33**) | cynnwys sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â Deallusrwydd Artiffisial yn cyd-fynd â chategorïau risg presennol (e.e. diogelwch clinigol, llywodraethu gwybodaeth, seiberddiogelwch, moeseg, y gweithlu a risg i enw da) a sicrhau bod perchnogaeth, rheolaethau a llwybrau uwchgyfeirio eglur yn eu lle.<br>Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn gyson â Fframwaith Deallusrwydd Artiffisial cymeradwy'r Bwrdd Iechyd, sy'n nodi gofynion llywodraethu, diogelwch clinigol, llywodraethu gwybodaeth, moesegol a monitro ar gyfer defnyddio Deallusrwydd Artiffisial, gan gynnwys cynnal portffolio canolog a phroses gofrestru ganolog ar gyfer Deallusrwydd Artiffisial. Bydd risgiau sy'n gysylltiedig â Deallusrwydd Artiffisial a adnabyddir trwy'r broses hon yn cael eu hadlewyrchu'n gyson ar draws cofrestrau risgiau gweithrediadol a, lle y bo'n briodol, yn cael eu huwchgyfeirio at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ar gyfer goruchwyliaeth trwy'r Tîm Gweithredol a strwythur pwyllgorau'r Bwrdd. | | |
| **A3** | Dylai'r Bwrdd Iechyd gynhyrchu Cynllun Gweithlu Digidol i ategu ei Gynllun Digidol Strategol wedi'i ddiweddaru. Bydd hyn yn ei alluogi i ddeall bylchau mewn sgiliau digidol a dyrannu'r adnoddau y mae eu | Mae'r Bwrdd Iechyd yn cytuno â'r argymhelliad hwn. Bydd **Cynllun Gweithlu Digidol** pwrpasol yn cael ei ddatblygu i roi cymorth i gyflawni'r Cynllun Digidol Strategol wedi'i ddiweddaru ac i sicrhau cynaliadwyedd trawsnewid digidol dros y tymor canolig a hir. Bydd y cynllun yn asesu capasiti a gallu digidol cyfredol ar draws y sefydliad, yn adnabod bylchau allweddol mewn sgiliau digidol, ac yn diffinio'r | 31 Rhagfyr 2026 | Cyfarwyddwr Digidol |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | hangen i ddatblygu'r gweithlu. (**Paragraff 38**) | buddsoddiadau yn y gweithlu sy'n ofynnol i gefnogi rhaglenni digidol sy'n flaenoriaeth a gwasanaethau busnes-fel-arfer.<br>Bydd y Cynllun Gweithlu Digidol yn cyd-fynd â Chynllun Strategol Digidol y Bwrdd Iechyd, ei strategaeth ehangach ar gyfer y gweithlu a disgwyliadau cenedlaethol GIG Cymru. Bydd yn ystyried y sgiliau sy'n ofynnol i gefnogi gwasanaethau digidol craidd, technolegau sy'n dod i'r amlwg (gan gynnwys data, dadansoddeg a Deallusrwydd Artiffisial), gwybodeg glinigol, newid a mabwysiadu, a llywodraethu seiber a gwybodaeth. Bydd yr allbwn yn darparu sail eglur ar gyfer datblygu'r gweithlu, cynllunio ar gyfer olyniaeth, blaenoriaethau hyfforddi a phenderfyniadau ynglŷn â chyllido, a bydd o gymorth i ddyrannu adnoddau mewn modd mwy gwybodus wrth i fwy a mwy gael ei gyflawni â thechnoleg ddigidol. | | |
| **A4** | Dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno proses i grynhoi a thracio deilliannau ac effaith gweithgareddau ymgysylltu ar draws prosiectau digidol, i wella sicrwydd. (**Paragraff 49**) | Mae'r Bwrdd Iechyd yn cytuno â'r argymhelliad hwn. Bydd dull mwy cyson a strwythuredig yn cael ei gyflwyno i **grynhoi, tracio ac adrodd ar ddeilliannau ac effaith gweithgareddau ymgysylltu** a gyflawnir ar draws rhaglenni a phrosiectau digidol. Bydd hyn yn gwella sicrwydd bod ymgysylltiad â rhanddeiliaid, y gweithlu a chleifion yn bwrpasol, yn gymesur ac yn goleuo penderfyniadau ynglŷn â chyflawni.<br>Bydd y dull yn adeiladu ar weithgarwch ymgysylltu presennol sydd eisoes yn digwydd trwy raglenni digidol, gan gynnwys ymgysylltu â | 31 Mawrth 2027 | Cyfarwyddwr Digidol |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | | gwasanaethau, gweithgarwch cynhwysiant digidol a chymorth mabwysiadu, a bydd yn cyflwyno mecanwaith cyffyrddiad ysgafn i gofnodi themâu ymgysylltu allweddol, camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb, a'r effaith o ganlyniad ar gyflawni, mabwysiadu neu brofiad defnyddwyr. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chyfuno ar lefel portffolios a byddir yn adrodd arni trwy fforymau sicrwydd a llywodraethu digidol presennol, gan ddarparu golwg gliriach rhwng gweithgarwch ymgysylltu a deilliannau rhaglenni.<br>Bydd y broses yn cyd-fynd â dull y Bwrdd Iechyd o adrodd ar gyflawni a sicrwydd mewn perthynas â digidol, gan ei gwneud yn bosibl i fewnwelediadau sy'n deillio o ymgysylltu gael eu hadlewyrchu ochr yn ochr â chynnydd, risgiau a manteision, heb greu baich adrodd diangen. | | |
| **A5** | Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau adroddiadau ar lefel y Bwrdd ar grwpiau digidol a phartneriaethau digidol cenedlaethol, i roi trosolwg well i'r Bwrdd ar ddatblygiadau cenedlaethol a sut y maent yn effeithio ar gynlluniau digidol lleol. (**Paragraff 52**) | Mae'r Bwrdd Iechyd yn cytuno â'r argymhelliad hwn. Bydd adroddiadau ar lefel y Bwrdd yn cael eu cryfhau i ddarparu goruchwyliaeth gliriach a mwy cyson ar **grwpiau, rhaglenni a phartneriaethau digidol strategol cenedlaethol**, a goblygiadau'r rhain ar gyfer blaenoriaethau, fforddiadwyedd a chynlluniau cyflawni digidol lleol.<br>Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy resymoli a safoni'r ffordd y mae datblygiadau digidol cenedlaethol a rhanbarthol yn cael eu crynhoi a'u huwchgyfeirio o'r Pwyllgor Digidol, Data ac Arloesi at y Bwrdd. Bydd | 30 Medi 2026 | Cyfarwyddwr Digidol |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | | naratif mwy eglur yn cael ei ddarparu ar raglenni allweddol, y cyfeiriad polisi sy'n dod i'r amlwg, a phartneriaethau strategol ar lefel genedlaethol, gyda disgrifiad eglur o gyfleoedd, cyfyngiadau, dibyniaethau a chamau gweithredu lleol gofynnol. Bydd hyn yn galluogi'r Bwrdd i ddeall yn well sut y mae mentrau cenedlaethol yn effeithio ar Gynllun Strategol Digidol y Bwrdd Iechyd, ei drefn cyflawni a'i benderfyniadau buddsoddi.<br>Bydd y dull yn adeiladu ar bapurau presennol y Pwyllgor Digidol, Data ac Arloesi sy'n cwmpasu'r dirwedd ddigidol genedlaethol a rhanbarthol a phartneriaethau digidol cenedlaethol a rhanbarthol, a bydd yn sicrhau bod diweddariadau i'r Bwrdd yn canolbwyntio ar **yr hyn sydd wedi newid, pam ei fod o bwys, a pha benderfyniadau neu ymwybyddiaeth sy'n ofynnol**, yn hytrach na dyblygu manylder gweithrediadol. | | |

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, ac adrodd ar y rhain. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.